

# Dysgwyr ledled Cymru

Dyma'ch cyfle i helpu dysgwyr y dyfodol drwy ddweud wrthym pa bynciau a chymwysterau ddylai fod ar gael iddyn nhw ddewis ohonynt.

## Beth sy'n newid a pham?



O 2022, bydd yr hyn rydych chi'n ei ddysgu a sut rydych chi'n dysgu yng Nghymru yn newid. Y rheswm am hyn yw bod cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed yn cael ei gyflwyno sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol.

Mae Cymwysterau Cymru eisiau eich barn chi ar sut y dylai cymwysterau newid i gefnogi dysgwyr fydd yn dilyn y cwricwlwm newydd.

## Dywedwch wrthym beth yw eich barn.

Rydyn ni am i chi ddweud wrthym pa fath o gymwysterau TGAU a chymwysterau eraill y dylem ni eu creu ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cwricwlwm newydd.

Rydyn ni wedi gweithio gydag arbenigwyr addysg i feddwl am syniadau am yr hyn y dylai'r dewis o gymwysterau ei gynnwys. Nawr, rydyn ni am brofi'r syniadau hynny a gweld beth yw eich barn chi. Rydyn ni am glywed eich barn yn seiliedig ar eich profiadau fel dysgwr.



## Pam nawr?

Mae'r dysgwyr cyntaf i ddilyn y cwricwlwm newydd ym Mlwyddyn 5 ar hyn o bryd. Byddan nhw'n sefyll eu cymwysterau yn 2027.

Bydd profi ein cynlluniau nawr yn golygu y gallwn wneud newidiadau a gwneud yn siŵr bod digon o amser i ddysgwyr ac athrawon baratoi ar gyfer y cymwysterau newydd.

## Pam y bydd fy marn i'n bwysig?

Rydych chi'n profi addysg nawr felly rydyn ni wir eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl. Bydd eich atebion yn ein helpu i ddeall beth mae dysgwyr ei eisiau a sut rydych chi'n meddwl y gallai pethau fod yn well. Drwy roi eich barn i ni, byddwch yn helpu i lunio cymwysterau ar gyfer dysgwyr y dyfodol. Mae gan bob person ifanc yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau.

## Pwy yw Cymwysterau Cymru?

Ni sy'n penderfynu pa gymwysterau sydd ar gael i ysgolion a cholegau. Daw cymwysterau gan sefydliadau o'r enw byrddau arholi. Ein gwaith ni yw sicrhau bod byrddau arholi yn dilyn ein rheolau fel bod cymwysterau'n cael eu hasesu'n deg a'u bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.



Mae rhai o'n syniadau'n cynnwys:

TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol ac mewn Peirianeg

TGAU cyfun newydd ar gyfer Mathemateg a Rhifedd, Cymraeg a Saesneg

Cymwysterau newydd byr i eistedd ochr yn ochr â TGAU i brofi sgiliau ymarferol mewn rhifedd, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol

## Beth nesaf?

Cwblhewch yr arolwg  
a mynegwch eich barn  
ar y cynigion.

I gadw mewn cysylltiad  
dilynwch ni ar

